# Y CYNGOR DYDD IAU, 5 MAWRTH 2026

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Ioan Thomas (Cadeirydd)
Elin Walker Jones (Is-gadeirydd)

Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Robert Glyn Daniels, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Gwion Emyr, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, R. Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Geraint Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Beca Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:**

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddiadau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anwen Davies, Annwen Hughes, Louise Hughes, Arwyn Herald Roberts ac Elfed Roberts.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr  2025 fel rhai cywir, ynghyd a chofnodion y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar y 5 Chwefror 2026.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Bu i'r Swyddog Monitro, ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol, ddatgan buddiant ar eitem 9 gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau. Eglurwyd y bydd y Prif Weithredwr yn parhau yn y cyfarfodn ond petai trafodaeth ar ei gyflog yna byddai'r Prif Weithredwr yn ymneilltuo.Roedd o'r farn bod gan y swyddogion fuddiant o sylwedd fe adawodd y Swyddog Monitro, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Louise Hughes a'i merch sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar, a'r Cynghorydd John Brynmor Hughes yn dilyn cyfnod mewn ysbyty. Mynegwyd fod nifer o aelodau'r Cyngor hwn wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd iddynt i gyd adferiad llwyr a buan.

Nos Sadwrn bu i gystadleuaeth Cân i Gymru gael ei gynnal, llongyfarchwyd cyfansoddwyr a'r unawdydd a enillodd sef Emlyn Gomer o Gaernarfon, Gath Thomas o Ddinas Dinlle a Henry Priestman o Ynys Môn a'r gantores Sara Owen o Ddyffryn Nantlle.

Nodwyd llongyfarchiadau i Celyn a Caio o Rostryfan sy'n gyfrifol am gynhyrchu a dosbarthu Papur y Bobl - papur bro newydd i'r ardal. Yno gystal Jac Dei o Ysgol y Moelwyn sy'n prysur wneud enw iddo 'i hun yn y byd dartiau. Ynghyd a Rio Chung 12 oed o Fangor yn cynrychioli Cymru yn y Bencampwriaeth Ewropeaidd Biliards a Snwcer yn Gandia yn ystod y mis yma.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

### 1. Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen

Os nad ydych eisoes yn gwybod mae ymgyrch wedi ei ddechrau yn Harlech gan ddynes o'r enw Andrea Bowen I gael cofeb I Catrin merch Glyndŵr Mae hanes Catrin yn hynod o drist ac yn amlwg roedd yn ferch ddewr iawn.

Gai ofyn felly os buasai'r Cyngor yn gallu cefnogi mewn egwyddor yr ymgyrch gymunedol i godi cerflun o Catrin ferch Owain Glyndŵr yn Harlech, gan ystyried ei chysylltiad hanesyddol uniongyrchol â'r dref drwy Gastell Harlech, a'r ffaith nad oes ar hyn o bryd gofeb gyhoeddus yn cydnabod ei haberth a'i rôl yn hanes Cymru?

**Ateb Yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd Medwyn Hughes**

Diolch i'r Cynghorydd am ei gwestiwn. Mae gan Harlech ran amlwg yn hanes Cymru, ac mae hanes Catrin, merch Owain Glyndŵr, yn arwyddocaol yn yr hanes yma. Dwi'n siŵr byddai Cyngor Gwynedd yn cefnogi mewn egwyddor ymgyrch lleol i ddehongli'r hanes trwy greu cerflun o Catrin yn Harlech. Byddai'n gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r hanes i blant a phobl ifanc Gwynedd ac i ymwelwyr i'r dref a'r Castell, sydd wrth gwrs yn rhan o Safle Treftadaeth Byd. Gwn fod swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned yn barod iawn i gefnogi'r grŵp lleol, a dwi'n siŵr bydd gwasanaethau eraill o'r Cyngor hefyd yn cefnogi'r ymgyrch i adnabod safle addas ar gyfer y gofeb.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

Diolchwyd am yr ymateb a'i fod yn edrych ymlaen at drafod y mater gyda'r swyddogion. Mynegwyd ei fod yn credu fod yr Adran yn siŵr o gytuno ei fod yn syniad da i gael cerflun o ferch yng ngogledd Cymru gan mai dim ond cofeb o ferch sydd i'w gweld ar draws Cymru gyfan.

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned, y Cynghorydd Medwyn Hughes**

Cytunodd yr Aelod Cabinet i'r carn.

2. **Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Brown**

Cyhoeddwyd adroddiad gan Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2021 yn asesu pa mor llwyddiannus neu beidio oedd Ffordd Gwynedd. Mae darn o'r adroddiad sy'n dwyn y teitl 'Diwylliant - Grymuso, Ymddiriedaeth ac Arweinyddiaeth' yn rhybuddio am ddwy broblem, sef bod her adeiladol yn cael ei hatal a bod rhywfaint o her ddinistriol yn bodoli, yn aml gan rai mewn awdurdod - rhywbeth sy'n tanseilio ymddiriedaeth ac yn atal grymuso.

Mae'r ddau fater yn cyfrannu at yr un risg systemig: diwylliant ble nad yw pryderon yn cael eu codi'n effeithiol, ble nad yw syniadau'n cael eu rhannu'n ddiogel, a ble gall arferion anniogel fynd heb eu herio. Amlygwyd rhai o ganlyniadau diwylliant o'r fath yn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

O ystyried bod y pryderon hyn wedi eu codi yn 2021 - ddwy flynedd cyn arestio Neil Foden - beth wnaethpwyd ar y pryd i wella ymddiriedaeth a cheisio datblygu diwylliant gwaith sydd yn grymuso herio iach ac adeiladol?

**Ateb Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Ffordd Gwynedd yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ein ffordd ni o weithio yma yng Ngwynedd. Mae'n ffurfio 9 ffrwd gwaith sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Sefydliad. Mae pwyslais ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud ac edrych ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu trwy lygaid y dinesydd.

Cynlluniwyd darn o waith ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru i edrych ar sut oedd y diwylliant wedi gwreiddio erbyn 2020. Allbwn y gwaith hwnnw oedd llythyr yn crynhoi'r sefyllfa.

Prif gasgliad Archwilio Cymru yn y llythyr oedd bod:

"Ffordd Gwynedd yn ymwreiddio'n dda ac yn sbarduno newid diwylliannol, fodd bynnag, mae yna rai rhwystrau a chamsyniadau cyffredin yn bodoli sy'n arafu cynnydd Ffordd Gwynedd".

Roedd y gwaith a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei seilio ar gyfweliadau gyda phob Pennaeth Adran a Chyfarwyddwr ar y pryd. Ymysg nifer o gasgliadau ac argymhellion adeiladol, adnabuwyd herio dinistriol fel un rhwystr:

"...er mwyn teimlo eich bod wedi eich grymuso, mae angen gallu ymddiried yn y rhai o'ch cwmpas. Mae angen iddynt fod yn gefnogol ac yn gadarnhaol, hyd yn oed wrth herio. Mae amgylchedd diogel yn allweddol, sef man diogel i arbrofi ac i edrych i mewn i syniadau. Man lle mae'n ddiogel i fethu a dysgu, gan geisio cefnogaeth a mewnbwn gan gydweithwyr. Yn amlwg, ar lefel uwch yn unrhyw sefydliad mae angen cynhenid i dderbyn ac ymateb i her, mae'n rhan o'r swydd. Ond rhaid ei wneud mewn ffordd adeiladol, gefnogol neu, fel arall, gall fod yn wrthgynhyrchiol. Ar hyn o bryd, yn y Cyngor, mae yna enghreifftiau lle nad yw'r berthynas hon o ymddiriedaeth a her adeiladol yn bodoli; caiff her ei disgrifio'n aml yng ngeiriau rhai pobl a caiff ei gweld gan eraill fel rhywbeth dinistriol."

Mewn ymateb i lythyr y Swyddfa Archwilio, o ganlyniad uniongyrchol i'r sylwadau hyn, cymerwyd camau penodol gan swyddogion y Cyngor yn ystod 2021 i gryfhau ymddiriedaeth, ac i ddatblygu diwylliant yn bellach.

Yn dilyn apwyntio Prif Weithredwr newydd yn Mai 2021, un o'r camau cyntaf a

gymerwyd ganddo oedd i geisio sicrhau fod pob her yn adeiladol ei natur. Newidiwyd ethos y cyfarfodydd Herio Perfformiad Adrannol i un lle'r oedd diwylliant a phwyslais o “Herio a Chefnogi”. Roedd y newid hwn yn cefnogi dwy egwyddor sylfaenol:

1. **Herio iach ac adeiladol,** wedi ei seilio ar dystiolaeth ac arweinyddiaeth glir; a
2. **Cefnogi perfformiad** drwy gryfhau sgiliau rheoli, sicrhau cysondeb, a meithrin agwedd sy’n canolbwyntio ar ddatblygu yn hytrach na beirniadu.

Ers hynny, mae’r trefniadau newydd wedi dod yn rhan o drefn lywodraethu’r Cyngor.

Yn ychwanegol i hyn:

1. Adolygwyd y pecyn hyfforddi i Reolwyr gan sicrhau ei fod yn cynnwys hyrwyddo’r diwylliant o herio adeiladol. (Rhoddwyd hyfforddiant tebyg i Aelodau Etholedig yn dilyn etholiad Mai 2022.)
2. Cyflwynwyd llythyr y Swyddfa Archwilio i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng Ngorffennaf 2021 a Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen o Aelodau’r Pwyllgor i gydweithio â’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol i wneud Adolygiad manwl o sut oedd y ffordd o weithio yn datblygu drwyddi draw.
3. Bu i’r Adolygiad gynnwys asesiad gan bob Tîm Rheoli Adrannol o sut oedd eu hadran yn gweithredu’r ffordd o weithio.
4. Adroddwyd ar gasgliadau’r Adolygiad i’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Hydref 2022 gyda nifer o argymhellion am sut i barhau i ddatblygu’r ffordd o weithio.

Trafodwyd casgliadau’r Adolygiad yma yng nghyfarfod Ionawr 2023 o Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ac eto wrth fabwysiadu fersiwn newydd o Gynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 yng nghyfarfod y Cabinet ym Mawrth 2023.

Mynegwyd amryw o sylwadau gan yr aelodau cabinet ar y pryd am wahanol elfennau o Ffordd Gwynedd gan gynnwys cydraddoldeb, gweithio gyda phartneriaid allanol a phwysigrwydd edrych ar wasanaethau’r Cyngor drwy lygaid y defnyddwyr.

Mae hi bellach hanner ffordd drwy’r cynllun a fabwysiadwyd yn 2023 ac mae’n fwriad gan y Prif Weithredwr i gynnal adolygiad pellach o’r cynnydd dros y misoedd nesa. Mae adolygu a gwirio diwylliant sefydliadol yn rhywbeth ddylai ddigwydd yn barhaus ac yn bendant yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Mae adroddiad Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder wedi ysgwyd y Cyngor cyfan ac yn berthnasol iawn wrth fynd ati i adolygu Ffordd Gwynedd. Bydd yn hanfodol sicrhau mewnbwn Aelodau i’r Adolygiad hwn a byddwn yn gofyn am fewnbwn Swyddfa Archwilio Cymru y tro hwn hefyd.

Fel bob amser, wrth drafod y pwnc pwysig yma, y dioddefwyr sydd ar flaen ein meddyliau. Dwi’n ategu ymddiheuriadau’r Cyngor hwn i’r dioddefwyr a phawb gafodd eu heffeithio gan y troseddau. Trwy’r Cynllun a’r Bwrdd Ymateb mae gweithredu yn digwydd er mwyn gwneud yn siŵr fod newid, gan gynnwys newid i ddiwylliant y Cyngor ar waith; hyn ydi’r deyrnged fwyaf y gallwn ei dalu i ddewrder y dioddefwyr.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Beca Brown**

Ag ystyried fod llythyr Archwilio Cymru 2021 yn codi pryderon am ddiwylliant sefydliadol sydd yn berthnasol i’r materion a archwiliwyd yn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, ac nad yw’n ymddangos fod y ddogfen hon wedi cael ei rhannu ag yr adolygiad ymarfer plant, allwch chi egluro pa dystiolaeth sydd yna fod y camau a nodwch megis hyfforddiant a newidiadau i gyfarfodydd herio perfformiad wedi gwella ymddiriedaeth a gallu pobl i godi pryderon yn ddiogel.

**Ateb yr Aelod Cabinet Wasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Bu i Gyngor Gwynedd gydymffurfio a chydweithio yn llawn gyda'r adolygiad ymarfer plant, cafodd cronolegau manwl a thrylwyr ei pharatoi a rhannwyd cannoedd o ddogfennau gydant hwy. Bu i wybodaeth gefndirol hefyd gael ei rannu mewn ymateb i geisiadau pellach wrth i'r adolygiad fynd yn ei blaen. Rydym yn derbyn pob argymhelliad a gyflwynwyd gan Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder ac yn benderfynol ar weithredu ar bob un o'r rhain drwy'r Cynllun Ymateb. Mae ymddiriedaeth yn rhywbeth hynod o anodd ei fesur fel sydd wedi ei grybwyll yn yr ateb. Mae adolygiad o ffordd Gwynedd ar y ffordd yn dilyn Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a bydd cyfle i aelodau fod yn rhan o'r adolygiad hwnnw.

## 7. CYLLIDEB 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod nifer o gwestiynau yn codi am sut mae'r dreth cyngor yn cael ei wario. Cyflwynwyd gwybodaeth a oedd yn amlygu'r prif feysydd megis bod 80% o'r arian yn mynd tuag at Addysg a'r maes Gofal. Amlygwyd fod 8,000 o oriau'r wythnos yn cael ei roi i ofal cartref bob wythnos, gyda 1500 o unigolion yn cael gwasanaeth Teleofal. Nodwyd fod 12,000 o bobl wedi cael cymorth drwy'r cynllun Gweithredu Tai ers 2020. Tynnwyd sylw at y ffigwr fod 93% o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd drwy ymyrraeth trobwynt, a bod 2 Gartref Bychan yn weithredol gyda 2 gartref arall ar y ffordd. Mynegwyd fod gwaith da yn cael ei wneud a bod angen amlygu'r llwyddiannau sydd yn cael ei gwneud gan staff y Cyngor.

Cyflwynwyd y gyllideb gan nodi fod angen cychwyn gyda'r rhagolygon ariannol o'r flwyddyn ariannol bresennol er mwyn deall sefyllfa yn llawn. Amlygwyd fod £5.3m o orwariant, ble nad oedd cyllidebau'r adrannau ddim yn ddigon i ddiwallu'r galw am wasanaeth. Esboniwyd mai yn y maes gofal oedd y prif alw gyda diffyg o £3m yn yr adran Oedolion a £1.8m yn Adran Blant. Ategwyd fod y gorwariant wedi'i gyllido drwy ddefnydd o gronfeydd. Mynegwyd oherwydd y fargen a wnaethpwyd yng Nghaerdydd ddiwedd flwyddyn ddiwethaf, roedd y setliad yn llawer gwell na pheth oedd wedi ei ragweld sef 4.1% - sef £10.4m yn ychwanegol.

Eglurwyd fel rhan o'r broses o osod cyllideb fod yr adran wedi gwneud nifer o ragdybiaethau megis codiad cyflog o 4% i athrawon a 3.4% i weddill gweithlu'r Cyngor. Nodwyd ynghyd a chwyddiant naturiol fod angen buddsoddi mewn gwasanaethau, a mynegwyd fod cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn i ddod megis buddsoddiad yn y gwasanaethau gofal ac addysg.

Amcangyfrifir y bydd angen gwario oddeutu £23.3m ychwanegol y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn cynnal ein gwasanaethau gyda'r pwysau mwyaf yn dod o chwyddiant cyflogau, chwyddiant cyffredinol a'r cynnydd mewn galw am wasanaethau. Nodwyd fod hyn yn creu gofyniad gwario ar gyfer 2026/27 yn £380m. Esboniwyd fod setliad gan Lywodraeth Cymru yn £264m sydd yn gadael bwlch o £116m. O ran arbedion, amlygwyd fod gwerth £664,000 wedi eu cymeradwyo yn barod, gyda chwarter miliwn ar gael i gael ei gyfrifo'r bwlch ariannu. O ganlyniad, er mwyn gosod cyllideb gytbwys bydd hyn yn golygu codi'r Dreth Cyngor i 5.17%.

Eglurwyd bod y sylfaen drethiannol yn cynyddu i ychydig o dan 58k o anheddau oherwydd cynnydd yn nifer yr eiddo, y nifer sy'n destun y Premiwm Treth Cyngor ar benderfyniad i gynyddu premiwm ar eiddo gwag hir dymor. Mynegwyd ei bod yn siomedig iawn bod y cynnydd yn y dreth yn uwch na chwyddiant unwaith eto, ond fod y sefyllfa llawr iawn gwell na beth oeddent yn ei ofni yn ôl ym mis Rhagfyr.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid Statudol sylw at Ddatganiad Adran 25 yn yr atodiadau, sydd yn ddatganiad personol ganddo yn amlygu cadernid amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru. Pwysleisiodd fod adroddiad tymor canolig wedi ei dderbyn gan y Cabinet yn ôl ym mis Medi, a bod y rhagolygon yn cael ei

diweddaru’n gyson ac ar sail y wybodaeth ddiweddaraf. Mynegodd fod derbyn setliad blynyddol yn heriol, ac y bydd canlyniad etholiad y Senedd ym mis Medi gydag oblygiadau i’r Cyngor.

Amlygwyd cyd-destun y gyllideb drwy edrych ar ddiffyg cyllidebol eleni sydd yn amlygu’r pwysau ariannol ychwanegol sydd ar wasanaethau yn benodol gofal cymdeithasol. Eglurwyd fod argymhelliad i ariannu £9.9m o fidiau er mwyn mynd i’r afael a hyn. Er gwaethaf hyn, nododd fod gan y Cyngor hanes llwyddiannus o gydymffurfio a safonau ariannol, codau ymarfer a threfniadaeth llywodraethu gadarn sydd yn cael ei gadarnhau yn flynyddol gan arianwyr allanol. Eglurwyd fod graddau chwyddiant wedi lleihau i 2%, ond fod digwyddiadau gwleidyddol dros yr wythnos diwethaf yn gallu eu heffeithio. Er hynny, nododd ei fod yn n parhau yn hyderus bod y rhagolygon y gadarn.

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, amlygwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i wneud arbedion dros y blynyddoedd ond fod pwysau yn parhau i wireddu, ond fod camau lliniaru yn ei lle er mwyn ymdopi. Adroddwyd fod £110m yn y cronfeydd wrth gefn, gyda £7.9m yn y balansau cyffredinol yn ogystal. Eglurwyd fod y balansau cyffredinol ar lefel rhesymol ond fod angen ei adolygu. Cyfeiriwyd fod Archwilio Cymru wedi adolygu sut mae’r Cyngor yn rheoli balansau ac wedi nodi ar y cyfan fod y Cyngor yn adeiladol ac yn rhoi sicrwydd fod trefniadau i ddelio a chronfeydd.

Nodwyd drwy’r gwaith gofynnol a wnaed i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon sydd yn sail i’r gyllideb, ac wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru roedd y Pennaeth Cyllid o’r farn fod Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn gadarn, yn ddigonol a chyraeddadwy.

Rhoddwyd cyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd pwysigrwydd y penderfyniad i osod cyllideb mewn cyfnod o bwysau ariannol, a diolchwyd i Blaid Cymru am ddod i gytundeb a Llywodraeth Lafur. Pwysleisiwyd nad oes neb yn awyddus i godi’r dreth yn wyneb pwysau ariannol ar drigolion. Amlygwyd fod gwaith arbennig yn cael ei wneud ar gyllideb sydd ar gael a hynny heb wneud toriadau i wasanaeth rheng flaen. O ran yr adran blant nodwyd fod cynnydd sylweddol wedi bod gydag unigolion gydag anghenion cymhleth dwys sydd angen ymyrraeth arbenigol. Nodwyd nad yw’n gyllideb hawdd ond ei bod yn gyfrifol ac yn blaenoriaethu plant a phobl fregus.

Diolchwyd am yr adroddiad a gofynnwyd o ran yr asesiad ariannol pa mor gyfamserol yw’r asesiad oherwydd digwyddiadau’r wythnos diwethaf, a bod costau olew wedi codi yn aruthrol. Mynegwyd fod yr adroddiad wedi ei chyhoeddi dros wythnos yn ôl, ac felly doedd dim modd bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau’r wythnos diwethaf. Er hynny, mae’r asesiad wedi ei greu gyda’r sefyllfa fel yr oedd hi dros wythnos yn ôl, ac felly gall roi sicrwydd ei fod yn gywir pan gafodd ei anfon. Mynegwyd fod arian wrth gefn ar gyfer unrhyw gostau a all godi megis costau ynni, ac felly y byddai’r Cyngor yn gallu ymdopi a chynnydd mewn costau.

Bu i’r Aelod Cabinet dros Oedolion nodi ei fod yn croesawu’r ymdrech i osod cyllideb gytbwys. Nododd ei fod yn ddyddiol yn gweld cynnydd yn y maes, a bod y penderfyniad i ddiogelu £9.9m ar gyfer y pwysau ychwanegol yn arwyddocaol i sicrhau gwasanaethau. Amlygodd fod gosod y gyllideb yn dangos cefnogaeth i staff rheng flaen ac yn adlewyrchu gwir gost gofal er mwyn cynnal ansawdd, cadw staff ac osgoi methiannau. Cydnabuwyd fod gosod cyllideb gynaliadwy yn sail i wasanaeth cynaliadwy er yn heriol i ddod o hyd i’r balans o godi treth a chynnal gwasanaethau. Pwysleisiwyd fod y gyllideb yn ddatganiad clir o werthoedd yr aelodau, y sir a'u hymrwymiad i ofalu am drigolion bregus.

Derbyniwyd sylwadau gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a nododd fod cost dysgu’r genhedlaeth nesaf yn uchel. Tynnwyd sylw penodol at Anghenion Dysgu Ychwanegol gan amlygu fod arian ychwanegol wedi ei nodi yn y gyllideb. Mynegwyd ei fod yn arian

newydd sydd ddim yn tynnu oddi wrth unrhyw wasanaethau eraill. Er arian newydd yn cael ei groesawu nodwyd nad yw'r arian ddim yn ddigon a bod angen chwildro cenedlaethol. Amlygwyd fod arian ychwanegol wedi ei gynnig yn Lloegr ond nad oes arian cyfatebol am ei roi yng Nghymru. Er hynny nodwyd fod y Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd arian sylweddol yn dod i Lywodraeth Cymru ar gyfer ADY. Addawodd pa bynnag blaid fydd yn arwain y Senedd ym mis Mai y bydd yn ceisio ei orai i ddylanwadau ac i dderbyn cyfran deg o'r arian.

Cytunwyd a sylwadau'r Aelod Cabinet dros Addysg gan bwysleisio'r angen i lobio'r arian a bod gwir angen chwildro cenedlaethol.

Mynegwyd er bod £7.9 ar gael ym malansau cyffredinol wrth gefn y Cyngor, amlygwyd fod hyn oddeutu 1.3% o'r gyllideb. Nodwyd yr angen i'w gryfhau a bod angen rhwng 3-5%.

Nodwyd fod Llywodraeth Ganolog dros y blynyddoedd wedi rhoi mwy a mwy o bwysau ar Lywodraeth Leol i gynnal gwasanaethau ar lefel is o gyllidebau. Pwysleisiwyd yr angen i gael yr arian i gyflawni gwasanaethau

Holwyd os oes gan y Cyngor fas data sydd yn monitro faint o bobl a oedd yn talu treth cyngor sydd bellach wedi gorfod mynd i gael budd-daliadau, er mwyn gweld beth yw'r patrwm dros amser. Nodwyd fod y wybodaeth gan yr adran am geisiadau am ostyngiadau i Wynedd, ond nid ar lefel genedlaethol. Cynigwyd sgwrs bellach gyda'r aelod er mwyn deall pa fath o wybodaeth maent ei angen.

**PENDERFYNWYD**

1. Sefydlu cyllideb o £379,701,110 ar gyfer 2026/27 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £264,009,390 a £115,691,720 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 4.75% sylfaenol ynghyd a 0.42% pellach i gyfarch ardoll gan yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac felly'n rhoi cyfanswm o 5.17%)
2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £40,179,430 yn 2026/27 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

## 8. STRATEGAETH CYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYCA)

Cyflwynwyd yr eitem gan nodi fod yr adroddiad yn cyfarch y gofyn statudol ac i roi cyd-destun hir dymor i benderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddiadau gan ystyried y risg. Nodwyd fod y strategaeth yn priodi adroddiad y Gyllideb gyda'r Cynllun benthyg a buddsoddi drwy gyfuno'r rhaglen gyfalaf gyda'r ochor rheolaeth trysorlys.

Mynegwyd fod yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth. Eglurwyd gan ei fod yn faes technegol, fod cyflwyniad wedi ei roi ar agweddau Rheolaeth Trysorlys gan swyddogion o gwmni Arlingclose i geisio lledaenu dealltwriaeth o'r maes.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd pe byddent yn ystyried cael arian cyfalaf o'r cronfeydd wrth gefn, gan fod benthyg yn gallu golygu costau. Ymatebwyd drwy nodi fod hyn yn digwydd yn barod, ac nad yw'r Cyngor wedi benthyg yn allanol ers blynyddoedd.

Mynegwyd gyda newid yn ffiniau ardal etholiadol newydd, efallai y bydd aelodau mewn lle anodd o ran lobio am awdurdod unigol ac yna bydd pwysau cynyddol ar y Cyngor i lobio llawer mwy. Ymatebwyd drwy nodi amser a ddengys ond fod posibilrwydd y bydd llais y Cyngor yn cryfhau.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026/27.

## 9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TAL BLYNYDDOL 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol gan y Cyngor Llawn. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor Llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn. Bu i'r Pwyllgor Penodi ystyried cynnwys y drafft o bolisi tal yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

Amlygwyd fod dau ran i'w ystyried. Eglurwyd fod codiadau cyflog blynyddol ar gyfer prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Eglurwyd fod y cyflogwyr ac undebau wedi dod i gytundeb yn ôl ym mis Gorffennaf ar gyfer 2025/26, sef cynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol prif swyddogion. Mynegwyd fod y broses ar fin dechrau ar gyfer 2026/27.

Yr ail elfen yw cyflogau staff o dan lefel prif swyddogion, ac eglurwyd fod y Cydgyngor yn pennu'r rhain yn ogystal. Amlygwyd fod yr undebau ar gyflogwr wedi dod i gytundeb ar gynnydd o 3.2% i'r holl staff ynghyd a dileu lefel 2 ar y strwythur tal. Nodwyd ei bod hi'n ddyddiau cynnar ar y trafodaethau ar gyfer 2026/27.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Amlygwyd y blynyddoedd diwethaf fod yr adroddiadau yn cael eu cymeradwyo gan y Swyddog Monitro a Chyllid ond ei fod eleni yn cael ei gymeradwyo gan eu dirprwyon. Ategwyd fod hyn yn amlwg yn fwy synhwyrol gan eu bod yn trafod cyflogau ond gofynnwyd pam y newid mewn trefn. Ymatebwyd drwy nodi nad oes newid bwriadol wedi ei wneud a'i fod yn arferiad i ddirprwyon fod yn cymeradwyo'r adroddiad ond bydd y Prif Weithredwr yn edrych i mewn i hyn.

**PENDERFYNWYD**

Mabwysiadwyd y Datganiad o Bolisi Tâl drafft ar gyfer 2026/27.

## 10. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC) - DIWEDDARU'R CYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD (IAA)

Bu i'r Swyddog Monitro amlygu'r rhesymau dros gyflwyno'r adroddiad hwn gan nodi fod y Cyngor yn ôl ym mis Gorffennaf wedi cytuno, gyda'r wyth awdurdod sy'n rhan o'r pwl buddsoddi i sefydlu cwmni. O ganlyniad i hyn, eglurwyd fod y Cydbwyllgor yn parhau ond o fewn cyfundrefn newydd. Amlygwyd mai dim ond y Cyngor Llawn sydd a'r hawl i newid y cylch gorchwyl, a bod angen addasu rôl y cydbwyllgor a chymeradwyo'r addasiadau cyn i'r cwmni fod yn weithredol ac i sicrhau craffu llawn o'i gwaith.

Bu i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau nodi fod y Pwyllgor Pensiynau yn un trawsbleidiol a'u bod yn unfrydol gyda'r argymhelliad sydd wedi'i i gyflwyno. Eglurwyd fod gwaith enfawr wedi ei wneud i baratoi tuag at y newid i fod yn gwmni. Mynegwyd fod y mater yn un cymhleth ond fod y Pwyllgor wedi cymryd pob cam posib i sicrhau fod y penderfyniad hwn yn gywir ac wedi ei graffu yn llawn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn chwilio am gymeradwyaeth i ddiweddaru'r Cytundeb Rhyng-Awdrudod rhwng yr wyth Cyngor yng Nghymru sy'n gweinyddu

cronfeydd Pensiwn. Cymeradwywyd y cytundeb yn wreiddiol gan y Cyngor llawn ar 2il Mawrth 2017,
er mwyn sefydlu pŵl buddsoddi ar gyfer cronfeydd pensiwn Cymru. Eglurwyd fod addasiadau wedi ei gymeradwyo yn ôl yn Hydref 2021. Pwysleisiwyd fod y drefn a sefydlwyd dan y gyfundrefn wedi gweithio yn dda gyda chydweithio effeithiol gyda'r bwriad o arbed ffioedd rheolwyr buddsoddi drwy fuddsoddi ar raddfa fwy.

Serch hynny, mae rhaglen "Addas ar gyfer y Dyfodol" Llywodraeth San Steffan dros y ddeunaw mis diwethaf wedi golygu ein bod yn cael ei gorfodi i newid. Bu i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf gymeradwyo ffurfio endid corfforaethol sy'n berchnogaeth llwyr Awdurdodau Gweinyddu Partneriaeth Pensiwn Cymru, sef Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC, ac i gymeradwyo'r holl gamau eraill sy'n angenrheidiol i gyflwyno cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer awdurdodi'r cwmni.

Eglurwyd fod y newidiadau sydd wedi ei gorfodi wedi golygu gwaith sylweddol ynghyd ag amser ac adnoddau. Bydd y cwmni newydd i fod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2026. Er hyn mae un cytundeb arall na all y Cyngor ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Pensiynau sef y Cytundeb Rhyng-Awdurdod. Amlinellwyd yr addasiadau sydd wedi ei wneud i'r cytundeb, gan egluro eu bod wedi bod yn destun gwaith gan ymgynghorwyr cyfreithiol. Mynegwyd fod nifer o drafodaeth wedi bod i gadw golwg o'r datblygiadau ac felly eu bod yn hyderus ei fod wedi ei graffu yn briodol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd cefnogaeth i'r penderfyniad gan bwysleisio nad oes llawer o ddewis, ond fod y Pwl yn gobeithio y byddant yn parhau i weithio yn dda gyda'i gilydd.

Mynegwyd gyda'r perfformiad da sydd wedi bod i'r pwl fod risgiau amlwg o beidio arwyddo hwn. Eglurwyd fod gwaith wneud ei wneud i sicrhau fod modd parhau i weithio fel partneriaeth ond y prif bryder yw ei fod wedi ei orfodi arnom.

Holwyd os oes buddiant os aelod yn rhan o'r cynllun pensiwn, nodwyd nad oes.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y diwygiadau i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Awdurdodwyd y Pennaeth Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid i gymryd y camau angenrheidiol i gwblhau'r cytundeb.

## 11. DIWYGIADAU I GÔD YMDDYGIAD YR AELODAU A PHOLISI CHWYTHU'R CHWIBAN Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro gan nodi fod yr adroddiad yn amlygu newidiadau i'r cyfansoddiad. Nodwyd fod dau agwedd, y cyntaf yw diwygio'r cod ymddygiad yn unol ar Reoliadau Llywodraeth Leol a ddaeth i rym ym mis Ionawr. Mynegwyd ei fod yn fan newid, yn syml o ran geiriad yn y Cod Ymddygiad ac Egwyddorion Ymddygiad wrth drafod cydraddoldeb yn flaenorol roedd rhyw, hil, anabledd a chrefydd er enghraifft wedi ei rhestru yn unigol, ond fod y diwygiad yn ei addasu i fod yn "nodweddion gwarchodedig" fel term i'w cynnwys i gyd . Yn ychwanegol yn unol â'r Rheoliadau mae "amgylchiadau economaidd-gymdeithasol" yn cael ei gynnwys yn ogystal.

Amlygwyd fod y Cod wedi ei newid yn statudol yn barod, ond fod angen i'r Cyngor ei fabwysiadu yn ffurfiol ac i awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Drefn Datrys Mewnol yn ogystal i gyd-fynd a'r Cod Ymddygiad.

Eglurwyd o ran yr ail agwedd fod y Cabinet wedi adolygu polisi Canu'r Gloch yn ôl ym mis Ionawr a bod diwygiadau wedi eu gwneud. Mynegwyd gan ei fod yn ddogfen sydd yn rhan o'r Cyfansoddiad fod angen ei chyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth fel bod cofnod fod newid wedi ei wneud i'r Cyfansoddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd fod yr eitemau wedi eu trafod yn y Pwyllgor Safonau, a'u bod yn hapus gyda'r addasiadau.

**PENDERFYNIAD**

1. Mabwysiadwyd y diwygiadau i'r Egwyddorion Ymddygiad a'r Cod Ymddygiad Aelodau yn unol â'r gofyniad statudol. Gofynnir i'r Cyngor hefyd awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Weithdrefn Datrys Leol i gyd fynd â'r Cod Ymddygiad lle cyfeirir at y darpariaethau hyn.

2. Nodwyd cynnwys y Polisi Canu'r Gloch ddiwygiedig yn y Cyfansoddiad.

## 12. CALENDR PWYLLGORAU 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth gan amlygu fod Etholiad mis Mai ac Etholiad 2027 yn cael cryn effaith ar y dyddiadau. Tynnwyd sylw at y Pwyllgorau Craffu ychwanegol sydd wedi eu cynnwys ym mis Gorffennaf o ganlyniad i bwysau gwaith y pwyllgorau a'r cyfnod cyn-etholiadol. O ganlyniad i hyn, amlygwyd fod un addasiad i ddyddiad y Pwyllgor Ymgynghorol Lleol oherwydd yr angen am ddyddiadau i'r pwyllgorau Craffu ychwanegol. Bydd y pwyllgor yn cael ei gynnal ar y 22 Medi, a bydd yr addasiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn dilyn penderfyniad.

Nodwyd fod ymgynghoriadau eang wedi ei wneud a bod addasiadau wedi eu gwneud yn dilyn trafodaethau gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ac yr Awdurdod Tân. Mynegwyd ein bod wedi ceisio bod mor hyblyg â phosib ond yn methu cyfarch pob dim.

Diolchwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu mewnbwn i'r Calendr eu cyfarfod ym mis Chwefror.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd am y trafodaethau gyda'r Awdurdod Tân, ond holwyd os oes trafodaethau pan fo cyfarfodydd brys neu ychwanegol yn cael eu cynnal. Ymatebwyd drwy nodi ei fod yn rhywbeth i'w gadw yn y cof o ran ymgynghori, a bod angen parhau a'r drafodaeth a'r Awdurdod Tân ond mai eithriadau yw'r rhain.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd Y Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27

## 13. RHYBUDDION O GYNNIG

### (A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Gruffydd Williams o dan Adran 4.19

y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd.

Mynegwyd cefnogaeth i'r rhybudd gan nodi:-

- Fod rhyddid personol yn holl bwysig ac yn rhywbeth gall ei golli.
- Amlygwyd yn aml fod gamau fel hyn digwydd - dechrau yn fach ac yn tyfu dros amser a bod risg i ddata unigolion.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

Ym mis Ionawr 2026, cafwyd tro u bedol gan Lywodraeth San Steffan parthed eu cynlluniau i wneud cardiau adnabod digidol yn orfodol ar gyfer profi'r hawl i weithio, a hynny yn dilyn ymateb sylweddol gan Aelodau o'r cyhoedd gyda deiseb hefo dros 3 miliwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Llywodraeth yn datgan eu gwrthwynebiad i DI . Er bod y gofyniad gorfodol am gyflogaeth wedi'i ollwng, mae'r llywodraeth yn bwriadu symud prosesau dilysu ar-lein erbyn 2029, gan arwain at bryderon y bydd system adnabod ddigidol yn dal i gael ei chyflwyno'n raddol drwy'r drws cefn fel petai.

Bod y Cyngor yma yn llwyr wrthwynebu cyfundrefn Digital Identification a bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthwynebu DI yn unol ar Lywodraeth yn yr Alban a hefyd yn unol â sawl awdurdod lleol ledled Gwledydd Prydain . Ni ddylai cyfleustra byth ddod ar draul rhyddid personol.

**11(b) RHYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD ELIN HYWEL**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Elin Hywel o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd. Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Nad oes modd i ddemocratiaeth weithredu heb ymddiriedaeth, a'i fod yn cael ei ennill neu ei golli drwy'r ffordd mae pobl yn siarad, yn ymddwyn neu'r penderfyniadau sydd yn cael eu gwneud. Pwysleisiwyd fod ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth ar hyn o bryd yn hynod isel.
- Cyfnod heriol dros ben i drigolion Gwynedd ar hyn o bryd gyda digwyddiadau cenedlaethol a lleol wedi effeithio ymddiriedaeth mewn gwleidyddion.
- Nodwyd fod y cyfrifoldeb yn gorwedd gyda Chynghorwyr gan ofyn y cwestiwn beth yw eu rhan. Fel cynghorwyr fod ganddynt gyfrifoldeb i ddatgan a dangos parodrwydd i arfer a chynnal ymddiriedaeth. Eglurwyd mai'r cam cyntaf yn unig yw i ddatgan.
- Mynegwyd mai dim ond 38-39% o drigolion Gwynedd a bleidleisiodd yn yr Etholiad Llywodraeth Leol yn ôl yn 2022, gyda 28 sedd wedi ei hethol heb wrthwynebiad. O ganlyniad doedd dim trefn ddemocrataidd yn yr ardaloedd hynny oherwydd heb ddewis doedd dim etholiad.
- Croesawyd camau'r Senedd drwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i gryfhau uniondeb bywyd cyhoeddus a gosod gonestrwydd yn ganolog.
- Mynegwyd fod y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr yma am y rheswm gorau sef i wella bywydau pobl ac i greu cymunedau gorau. Amlygwyd fod trafodaethau yn gallu bod tanbaid ond fod gwasanaethu trigolion Gwynedd yn ganolog i bawb.
- Nodwyd fod angen i beth sydd yn digwydd yn y Siambr fod yn cryfhau democratiaeth ac i feithrin parch a hyder mewn sefydliadau.
- Eglurwyd os drwy eiriau mae modd arwain fod yn rhaid bod yn onest a'i fod meddwl rhywbeth go iawn, oherwydd drwy golli ymddiriedaeth mewn geiriau bydd colli ymddiriedaeth mewn democratiaeth.
- Pwysleisiwyd mai dim cyhuddiad pleidiol na phwyntio bysedd yw bwriad y cynnig ond cyd-sefyll ar un egwyddor ac i ddilyn camau'r Senedd i gryfhau uniondeb. Nodwyd ei fod yn ddyletswydd ar Gynghorwyr i gynnal ac adfer ymddiriedaeth y cyhoeddus.

Mynegwyd sylwadau i'r rhybudd gan Aelodau gan nodi:-

- Mai sylfaen democratiaeth ydi ymddiriedaeth, oherwydd os cyhoedd ddim yn cymryd rhan yna mae'r cysylltiad rhwng aelodau a chyhoedd am ddiflannu. Rhaid ennill yr ymddiriedaeth, ac mae'n rhaid bod yn dryloyw a parchus yn ein gwaith a thrafodaethau.
- Cydnabuwyd fod heriau ond nad yw'r rhain yn heriau unigryw. Mynegwyd fod y cynnig yn alwad cadarnhaol i arwain drwy esiampl ac i ddatgan yn glir fod y Cynghorwyr yn cymryd cyfrifoldeb o ddifri.
- Anghytunwyd gyda'r paragraff am y Cynghorwyr a etholwyd yn ddiwrthwynebiad yn golygu nad oes trefn democrataidd, gan fod gan unigolion y dewis, y dewis i roi eu henwau ymlaen ac felly mae trefn ddemocrataidd. Mynegwyd nad yw'n adlewyrchiad o ymddiriedaeth ond yr angen i annog mwy o bobl i fod yn rhan ac i sefyll dros eu hardal, ac yr angen i gynnwys hyn yn rhan o'r cynnig.
- Amlygwyd fod rhai seddi yn cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad efallai gan fod y cyhoedd yn fodlon gyda'r Cynghorydd sydd wedi bod yn eu gwasanaethu.
- Trafodwyd rhesymau cyhoedd dros beidio â sefyll gan amlygu fod ymrwymiad amser a gwaith yn gallu bod yn rhesymau.
- Cefnogwyd y cynnig gan nodi fod ffigyrau 2022 yn peri pryder o ran graddfeydd pleidleisio a nifer uchel yn cael eu hethol heb wrthwynebiad. Cyfeiriwyd at yr angen i edrych ar ddiwylliant, gan fod ymddiriedaeth yn ddibynnol ar sut mae unigolion a sefydliadau yn ymddwyn, a bod y lle ac amgylchedd ble unigolion yn teimlo yn gyfforddus a saff i leisio ei barn.
- Nodwyd fod y cynnig yn amserol a bod angen edrych be allwn ni neud yn lleol. Mynegwyd yr angen i edrych beth sydd yn afantol gan fod ymchwil yn dangos os pobl yn colli ymddiriedaeth yn sefydliadol eu bod am symud at arweinwyr asgell dde an-sefydliadol.
- Gofynnwyd i'r Blaid ymddiried yn y Grŵp Annibynnol wrth ystyried cadeiryddion gan eu bod yn teimlo llais ddim yn cael eu clywed.
- Mynegwyd nad yw mynegi nad oes dewis democrataidd os Cynghorydd yn cael ei ethol yn ddiwrthwynebiad yn sarhad ar y Cynghorwyr penodol hynny, ond yn hytrach yn adlewyrchiad o'r diffygion yn y system.
- Holwyd sut mae'r ddeddfwriaeth Senedd yn berthnasol i'r rhybudd. Mynegwyd fod gwelliant wedi bod i'r ddeddfwriaeth i sicrhau fod dweud celwyddau yn ystod ymgyrchu yn anghyfreithlon. Drwy wneud hyn fod y Senedd wedi blaenoriaethu gonestrwydd a chydnabod pwysigrwydd hynny. Nodwyd mewn cyfnod ble nad yw pobl ymddiried mewn gwleidyddion fod angen amlygu fod tryloywder a gonestrwydd yng nghalon gwleidyddiaeth Gwynedd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Hywel yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod mai ymddiriedaeth yw sylfaen democratiaeth. Gwyddom fod digwyddiadau diweddar yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol wedi tanseilio'r berthynas honno â phobl Gwynedd. Ni all democratiaeth weithredu'n iach heb ymddiriedaeth y cyhoedd yn y rhai sy'n eu cynrychioli; yr ymddiriedaeth honno sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol ac, yn eithro, yn sicrhau eu llais wrth lunio eu dyfodol.

Noda dystiolaeth gan yr Office for National Statistics fod ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion ar lefel isel iawn, gyda dim ond un o bob pump yn ymddiried mewn pleidiau gwleidyddol, a bod cysylltiad uniongyrchol rhwng diffyg

ymddiriedaeth a diffyg cyfranogiad.

Yn wyneb hynny, mae’r Cyngor hwn yn nodi’r cyfranogiad isel yn etholiad Cyngor Gwynedd 2022, yn unol â thueddiadau ehangach ledled Cymru, gyda thua 38-39% yn pleidleisio, a bod 28 o’r 69 sedd wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad, gan olygu nad oedd gan nifer fawr o etholwyr Gwynedd ddewis democrataidd.

Cydnabu’r y Cyngor bod y ffigyrau hyn yn amlygu her ddifrifol i iechyd democratiaeth leol ac i’r berthynas rhwng etholwyr a’u cynrychiolwyr.

Cydnabu’r mai ein hymddygiad ni fel arweinwyr cyhoeddus sy’n gosod safon y drafodaeth ddemocrataidd. Na ellir adeiladu ymddiriedaeth, na chynyddu cyfranogiad, oni bai ein bod ni’n modelu’r gwerthoedd hynny ein hunain.

Mae’r Cyngor hwn yn croesawu camau Y Senedd drwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i gryfhau uniondeb bywyd cyhoeddus a gosod gonestrwydd a gwirionedd wrth wraidd ein diwylliant democrataidd

Yn unol â hyn, mae’r Cyngor hwn yn datgan yn glir mai arnom ni, yn bersonol ac ar y cyd, y mae’r ddyletswydd i gynnal ac adfer ymddiriedaeth y cyhoedd.

Ymrwymwn i’r gwir, i dryloywder, i degwch ac i barch – conglfeini ein hawl i gynrychioli pobl Gwynedd.

## 14. YMATEBION A DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 4.45 y.h.

**CADEIRYDD**